

Taflen Ffeithiau

Cyngor dewisiadau tai ar gyfer unigolion 16 ac 17 oed

Beth sy'n digwydd os yw eich rhieni yn gofyn i chi adael?

Os yw eich rhieni wedi gofyn i chi adael ac nad oes gennych chi unman i aros heno yna gall y Tîm Atal Digartrefedd eich helpu

Coed Pella,
Conway Road,
Bae Colwyn.
LL29 7AZ
0300 1240040



Ar ôl i ni dderbyn eich manylion byddwn yn cysylltu â'ch rhieni / Gwarcheidwad. Os nad ydynt yn caniatáu i chi ddychwelyd i gartref y teulu ac nad oes aelod arall o'r teulu yn gallu cynnig llety i chi, byddwn yn cysylltu â'r Gwasanaethau Plant a byddwch yn derbyn asesiad ar y cyd. Yn gyntaf, bydd yr asesiad yn cadarnhau'r sefyllfa a thrafod yr hyn sydd wedi digwydd. Yna bydd swyddogion yn ceisio llunio cytundeb rhyngoch chi a'ch rhieni i weld os oes modd i chi ddychwelyd i gartref y teulu os yw'n ddiogel gwneud hynny. Os ydych chi'n gallu dychwelyd i'ch cartref dros dro, byddai modd i ni barhau i weithio gyda chi i ystyried eich dewisiadau tai gan gynnwys llety â chymorth neu lety yn y sector rhentu preifat.

Os cadarnheir nad oes modd i chi ddychwelyd i'ch cartref ac eich bod angen llety ar gyfer heno, yna efallai y byddwn yn cynnig llety dros dro. Yn dibynnu ar eich anghenion unigol, efallai bydd y Gwasanaethau Plant yn penderfynu eich derbyn i lety neu roi cefnogaeth i chi.

Os ydych chi'n gallu dychwelyd i gartref y teulu yna nid oes gennym ddyletswydd i ddarparu llety i chi, ond gallwn roi cyngor ynglŷn â sut i ganfod llety amgen.

Beth os ydych chi'n chwilio am gartref i chi eich hun?

Os ydych chi'n gallu aros gyda'ch rhieni ond yn dymuno chwilio am rywle arall i fyw, yna gallwn roi cyngor i chi am hyn.

Wrth chwilio am rywle i fyw mae'n bwysig ystyried sut y gallwch dalu amdano. Cofiwch bod angen ystyried rhent a'r holl filiau eraill. Byddai'r rhain yn cynnwys pethau fel dŵr, nwy, trydan, Treth y Cyngor ac ati. Hefyd mae'n rhaid ystyried biliau bwyd, eich ffôn symudol ac unrhyw weithgareddau cymdeithasol.

Os nad ydych yn talu eich rhent a biliau eraill yr aelwyd byddwch yn colli eich tenantiaeth.



Dewis Cymru yw'r lle i gael gwybodaeth am les yng Nghymru. Os hoffech wybodaeth all eich helpu i feddwl am yr hyn sy'n bwysig i chi, ynghyd â gwybodaeth am sefydliadau a gwasanaethau lleol a all helpu, gallwch fynd i wefan Dewis Cymru ar www.dewis.wales. Gall y wefan eich cynorthwyo i gael mynediad at wasanaethau cefnogaeth lleol a chanfod gwybodaeth a chyngor. Mae'n bwynt mynediad sengl, clir a dibynadwy.

This document is also available in English.

